

Rhif: **WG23085**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen ymgynghori

Canllawiau Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Byrddau Cymdeithasau Tai

Dyddiad cyhoeddi: **15 Medi 2014**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **8 Rhagfyr 2014**



Trosolwg

Mae Gweinidogion Cymru ("Ni") yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ("canllawiau") ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ymgynghori ar ddau faes cysylltiedig. I ddechrau, rydym yn ceisio barn ar y Canllawiau Drafft ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai. Yn ail, rydym yn ceisio barn ar a ddylai Llywodraeth Cymru roi uchafswm ar y gydnabyddiaeth ariannol y gellir ei thalu i aelodau byrddau.

Sut i ymateb

A fydddech gystal â chyflwyno eich sylwadau erbyn 8 Rhagfyr 2014

E-bost: darshan.matharoo@wales.gsi.gov.uk

Post:

Darshan Singh Matharoo,
Pennaeth Rheoleiddio, Cyfarwyddiaeth Dai,
Llywodraeth Cymru, Swyddfeydd Merthyr
Tudful, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynhwyswch gyfeiriadau at y rhyngwrwyd neu at ddogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai yr ymgynghorir â nhw, ee cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we, neu atodiadau manwl i'r ymgynghoriad.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Darshan Singh Matharoo, Pennaeth Rheoleiddio,

Cyfeiriad:

Cyfarwyddiaeth Dai, Llywodraeth Cymru,
Swyddfeydd Merthyr Tudful, Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful, CF48 1UZ

E-bost: darshan.matharoo@wales.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 0300 062 8164 (llinell uniongyrchol)

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys	Tudalen
Rhagair	2
Cefndir	3
Rheswm am ymgynghori	3
Y broses ymgynghori a'r dyddiad cau	4
Cwestiynau'r Ymgynghoriad	5
Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn?	7
Pwy ydym ni'n ymgynghori â nhw?	7
DOGFEN YMGYNGHORI: "Canllawiau Drafft ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai"	8

Rhagair

Mae'r dull newydd seiliedig ar risg o reoleiddio yn rhoi mwy fyth o bwyslais ar lywodraethu. Rwy'n credu bod y dull hwn yn hanfodol i sicrhau bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu rhedeg yn dda a bod gan eu rhanddeiliaid, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, benthycwyr ac, yn bwysig, eu tenantiaid, hyder ynddynt.

Rwyf wedi cael trafodaethau gyda chynrychiolwyr y sector am gryfhau trefniadau llywodraethu. Mae hyn wedi cynnwys cyfansoddiad Byrddau, gan sicrhau bod ganddynt y cyfuniad iawn o sgiliau a phrofiad. O ganlyniad, mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn llunio Cod Llywodraethu ar gyfer y sector. Mae hwn yn debygol o roi sylw i faterion megis cyfnodau penodol i aelodau byrddau, mwy o amrywiaeth ar fyrddau, a chydabyddiaeth ariannol aelodau byrddau.

Mae'r ddogfen hon yn ceisio barn ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau Byrddau. Rwyf eisiau clywed eich barn chi. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 8 Rhagfyr 2014 a byddwn yn croesawu eich sylwadau erbyn y dyddiad hwn.



Carl Sargeant
Gweinidog Tai ac Adfywio

Cefndir

Roedd astudiaeth ar drefniadau llywodraethu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, neu “gymdeithasau tai” fel y cânt eu hadnabod yn fwy cyffredin, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Rheoleiddiol ac a gyhoeddwyd ym Medi 2013, yn cynnwys nifer o argymhellion i wella a chryfhau trefniadau llywodraethu. Ymysg y rhain roedd er enghraifft, cydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau (h.y. swyddogion), cyflwyno Cod Llywodraethu, rhoi sylw i amrywiaeth byrddau, cyfnod gwasanaethu penodol i aelodau byrddau.

Cytunodd y Bwrdd Rheoleiddiol y byddai Cartrefi Cymunedol Cymru yn llunio ac yn cyflwyno Cod Llywodraethu ac y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno hyblygrwydd fel y gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) roi cydnabyddiaeth ariannol i’w haelodau bwrdd fel rhan o becyn o gynigion i wella/cryfhau trefniadau llywodraethu cymdeithasau tai. Fe wnaeth y Gweinidog Tai ac Adfywio a Cartrefi Cymunedol Cymru gytuno ar hyn hefyd fel rhan o’r Cytundeb Tai rhwng y ddau gorff.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda’r rhanddeiliaid a gyda chynrychiolwyr y sector drwy gyfrwng Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a’i is-grwpiau, y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio, y Grŵp Cynghori ar Gyllid a’r Panel Cynghori Tenantiaid i lunio’r canllawiau drafft.

Mae’r ddogfen hon yn ymgynghori ar y canllawiau drafft ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai, ac mae’n ceisio barn ar a ddylai Llywodraeth Cymru ddynodi’r uchafswm y caniateir ei dalu i aelodau byrddau. Er enghraifft, a ddylai fod yn swm blynyddol ynteu’n gyfradd ddyddiol ynteu’n lwfans mynychu ac ar ba sail y dylid pennu’r swm hwn.

Mae’r canllawiau drafft yn datgan yr hyblygrwydd sydd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i roi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau byrddau ac yn amlygu’r materion y mae’n rhaid iddynt eu hystyried. Mae hefyd yn delio â’r sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan gymdeithasau tai i ddangos eu bod wedi cydymffurfio â’r canllawiau hyn ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai.

Fe’ch gwahoddir i roi sylw ar y canllawiau erbyn 8 Rhagfyr 2014.

Rhesymau am ymgynghori

“Canllawiau drafft ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai”

Ar ôl i’r adroddiad ar astudiaeth y sector o drefniadau llywodraethu cymdeithasau tai gael ei gyhoeddi, addawodd y Gweinidog Tai ac Adfywio i’r sector y byddai’n ystyried mesurau i helpu i wella trefniadau llywodraethu cymdeithasau. Dyma rai o’r mesurau hynny:

- Cartrefi Cymunedol Cymru yn llunio Cod Llywodraethu;
- Llunio strwythurau cefnogi i ategu’r Cod Llywodraethu; a
- Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i hyblygrwydd cymdeithasau tai i roi cydnabyddiaeth ariannol i’w haelodau bwrdd.

Cafodd y “Canllawiau drafft ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai” eu llunio i gynorthwyo cymdeithasau i ystyried a ydynt am roi cydnabyddiaeth ariannol i’w haelodau bwrdd fel rhan o’r gweithredu i wella’u trefniadau llywodraethu.

Mewn arolwg o gymdeithasau yn Lloegr, a gynhaliwyd gan y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol, dywed dros 60% o gymdeithasau sy’n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i’w haelodau bwrdd fod cyflwyno taliad wedi cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar bum maes llywodraethu allweddol (*recrwtio aelodau bwrdd; cadw aelodau bwrdd; presenoldeb aelodau bwrdd; perfformiad aelodau bwrdd unigol a pherfformiad y bwrdd drwyddo draw*).

Mae’r canllawiau drafft yn cyfeirio at y “Canlyniadau cyflawni” sef y safonau perfformiad a wnaed gan Weinidogion Cymru dan adran 33A o Ddeddf Tai 1996 ac sydd wedi’u datgan yn y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi’u Cofrestru yng Nghymru.

Dan adran 33B o Ddeddf Tai 1996, caniateir i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau sydd (a) yn ymwneud â mater y mae safon yn rhoi sylw iddo, a (b) sy’n ehangu’r safon. Cyn cyflwyno canllawiau, eu diwygio neu eu tynnu’n ôl dan adran 33B o Ddeddf Tai 1996, mae’n ofynnol ymgynghori gyda’r cyrff hynny dan baragraffau (a)-(c) o adran 33C. Y cyrff hynny yw:

- (a) un corff neu ragor sy’n ymddangos iddynt hwy eu bod yn cynrychioli buddiannau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig,
- (b) un corff neu ragor sy’n ymddangos iddynt hwy eu bod yn cynrychioli buddiannau tenantiaid, ac
- (c) un corff neu ragor sy’n ymddangos iddynt hwy eu bod yn cynrychioli buddiannau awdurdodau tai lleol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn achub ar y cyfle hwn i adolygu, diweddarau a gwneud diwygiadau cysylltiedig i’r arweiniad yng nghylchlythyr RSL 005/10: *Permitted payments and benefits*.

Y broses ymgynghori

Gofynnir i chi roi sylwadau ar y “Canllawiau drafft ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai”.

Dyddiad cau’r ymgynghoriad

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn am 12 wythnos. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i’r ymgynghoriad hwn felly ydy 8 Rhagfyr 2014.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Hoffai Llywodraeth Cymru glywed eich barn chi. Mae gennym ddiddordeb yn benodol mewn ymatebion i'r cwestiynau canlynol er y croesawn sylwadau ar bob agwedd ar y ddogfen ymgynghori.

Enw:						
Sefydliad (os yn berthnasol)						
Cyfeiriad e-bost:						
Rhif ffôn:						
Cyfeiriad:						
Ticiwch i nodi a ydych chi:	Yn denant:		Yn landlord:		Arall (nodwch):	
Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor bod aelodau byrddau cymdeithasau tai yn cael cydnabyddiaeth ariannol?						Ticiwch
						Ydw Nac ydw
Yn fyr, dywedwch pam eich bod yn ymateb fel hyn						
Cwestiwn 2: A ddylid gosod uchafswm ar gyfer unrhyw gydnabyddiaeth ariannol?						Ticiwch
						Dylid Na ddylid
Cwestiwn 3 – Os ydych chi'n meddwl y dylid gosod uchafswm ar gyfer unrhyw gydnabyddiaeth ariannol, ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ddynodi'r uchafswm y caiff landlord cymdeithasol cofrestredig ei dalu?						
Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision gosod uchafswm?						
Os ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru osod uchafswm, a ddylai fod yn swm blynyddol, yn gyfradd ddyddiol ynteu'n lwfans mynychu, ynteu a ddylid pennu'r swm ar ryw sail arall?						

Os nad ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru osod uchafswm, a ddylai gael ei osod gan rywun arall ac os felly, gan bwy?

	Ticiwch			
Cwestiwn 4 – Pa mor ddefnyddiol ydy cynnwys, fformat a strwythur y canllawiau drafft?	Defnyddiol iawn	Eithaf defnyddiol	Ddim yn ddefnyddiol iawn	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

Cwestiwn 5 – Sut ellid gwella'r canllawiau drafft?

Cwestiwn 6- A oes unrhyw beth ar goll y credwch chi y dylid ei gynnwys?

Cwestiwn 7 – Darperir y blwch isod ar gyfer unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.

Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau – ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch enw gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

Os ydych chi'n ymateb ar ran eich sefydliad, ticiwch y blwch:

Os ydych chi'n barod i ni gysylltu â chi ynglŷn â datblygu'r canllawiau hyn, ticiwch y blwch:

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ar y “Canllawiau drafft ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau byrddau cymdeithasau tai” a geir yn y ddogfen ymgynghori hon.

A fyddech gystal â chyflwyno eich sylwadau erbyn 8 Rhagfyr 2014 fan bellaf, gan eu hanfon:

naill ai'n ysgrifenedig at: Darshan Singh Matharoo Pennaeth Rheoleiddio Cyfarwyddiaeth Dai, Llywodraeth Cymru, Swyddfeydd Merthyr Tudful Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ	neu'n electronig at: darshan.matharoo@wales.gsi.gov.uk Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad cysylltwch â Darshan Singh Matharoo ar: Rhif ffôn: 0300 062 8164 (llinell uniongyrchol) e-bost: darshan.matharoo@wales.gsi.gov.uk
--	---

Pwy ydym ni'n ymgynghori â nhw?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r sefydliadau a restrir isod, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol i ymgynghori dan adran 33B ac adran 33C o Ddeddf Tai 1996. Er hynny, croesewir ymatebion gan unrhyw unigolion, grwpiau neu sefydliadau sydd eisiau rhoi sylwadau ar y cynnig:

- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Cyngor Benthycwyr Morgeisi
- Gwasanaeth Cyngori ar Gyfranogiad Tenantiaid Cymru
- Tenantiaid Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Bwrdd Rheoleiddiol Cymru
- Panel Cyngori Tenantiaid
- Sefydliad Tai Siartredig Cymru
- Shelter Cymru

“CANLLAWIAU DRAFFT

AR

GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

AELODAU BYRDDAU CYMDEITHASAU TAI”

CANLLAWIAU DRAFFT AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU BYRDDAU CYMDEITHASAU TAI

CYFLWYNIAD

Mae Fframwaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru yn datgan y canlyniadau y mae gofyn i gymdeithasau tai eu cyflawni. Nod y canlyniadau o safbwynt trefniadau llywodraethu ydy sicrhau bod cymdeithasau'n cael eu llywodraethu'n briodol a'u harwain gan fwrdd effeithiol sydd ag ystod ddigonol o arbenigedd a fydd yn rhoi arweinyddiaeth a rheolaeth fedrus.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi arweiniad ar faterion allweddol sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol byrddau, a dylid ystyried hyn yng nghyd-destun llywodraethu da yn gyffredinol.

Mae'r materion sy'n cael sylw yn y canllawiau drafft hyn yn berthnasol i bob cymdeithas cyn belled ag y maent yn ymwneud â materion craidd llywodraethu da. Bydd angen i gymdeithasau sy'n dymuno ystyried talu i'w haelodau bwrdd adolygu'r canllawiau hyn, a dylai'r canllawiau hyn hefyd hysbysu'r achos busnes y bydd ei angen fel sail i unrhyw benderfyniad.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod unrhyw gymdeithas sy'n bwriadu talu i'w haelodau yn cyflwyno achos busnes o'r fath, gan ddangos sut fyddai talu i'r bwrdd yn gwella ansawdd ei threfn lywodraethu a pham y byddai defnyddio arian fel hyn er lles y gymdeithas a'i phreswylwyr.

Dylai cymdeithasau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau hefyd ddarllen cyhoeddiad y Comisiwn, Treuliau a Thaliadau Ymddiriedolwyr (CC11).

Mae penderfyniad cymdeithas i symud oddi wrth sefyllfa o aelodaeth wirfoddol o'r bwrdd at sefyllfa lle caiff yr aelodau bwrdd gydnabyddiaeth ariannol yn un pwysig, a dylid cefnogi'r penderfyniad hwnnw gyda thystiolaeth a dadansoddi cadarn.

CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

Mae paragraff 2(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 yn darparu na chaiff cymdeithas sy'n gymdeithas gofrestredig (dan ystyr Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014) neu'n gwmni wneud taliad na rhoi buddion i:

- a. Swyddog na gweithiwr i'r gymdeithas neu'r cwmni,
- b. Unigolyn a fu ar unrhyw adeg yn y deuddeg mis blaenorol yn un o'r unigolion ym mharagraff (a),
- c. Perthynas agos i un o'r unigolion ym mharagraff (a) neu (b), na
- d. busnes sy'n masnachu am elw y mae un o'r unigolion ym mharagraff (a), (b) neu (c) yn brif berchennog arno neu y mae'r cyfryw unigolyn yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r busnes hwnnw, ond bai fod y taliad a wneir neu'r budd a roddir yn syrthio i un o'r categorïau a ganiateir.

Caniateir y taliadau a'r buddion canlynol dan baragraff 2(2) o'r Atodlen honno:

- (a) Taliadau a wneir neu fuddion a roddir i swyddog neu weithiwr i'r gymdeithas neu'r cwmni dan ei gontract cyflogaeth gyda'r gymdeithas neu'r cwmni;
- (b) Taliadau cydnabyddiaeth ariannol neu dreuliau i swyddog i'r gymdeithas neu'r cwmni nad oes ganddo gontract cyflogaeth gyda'r gymdeithas neu'r cwmni;
- (c) unrhyw gyfryw daliad y caniateir ei wneud yn unol â pharagraff 1(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 (llog sy'n daladwy yn unol â'r rheolau a symiau penodol sy'n daladwy gan gymdeithas dai gwbl gydfuddiannol i unigolyn sydd wedi peidio â bod yn aelod);
- (d) Cymdeithas dai gydweithredol yn rhoddi neu'n adnewyddu tenantiaeth;
- (e) os rhoddwyd tenantiaeth tŷ i unigolyn a ddaeth yn ddiweddarach yn swyddog neu'n weithiwr, neu i berthynas agos i'r unigolyn hwnnw, rhoddi tenantiaeth newydd i'r tenant hwnnw boed honno ar gyfer yr un tŷ neu dŷ arall;
- (f) Taliadau a wneir neu fuddion a roddir yn unol ag unrhyw benderfyniad a wna Gweinidog Cymru.

Yn unol â pharagraff 3 o'r Atodlen honno, caiff Gweinidog Cymru ddynodi'r uchafsymiau y caiff landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gwmni neu'n gymdeithas gofrestredig eu talu:

- (a) fel ffioedd neu gydnabyddiaeth ariannol arall, neu fel treuliau, i aelod o'r gymdeithas neu'r cwmni nad ydyw'n swyddog nac yn gyflogedig i'r gymdeithas na'r cwmni, neu
- (b) fel cydnabyddiaeth ariannol neu dreuliau i swyddog i'r gymdeithas neu'r cwmni nad oes ganddo gontract cyflogaeth gyda'r gymdeithas neu'r cwmni.

Y PENDERFYNIAD I DALU A'R ACHOS BUSNES

Wrth wneud penderfyniad ar dalu i aelodau bwrdd ai peidio, bydd angen i'r gymdeithas ystyried sut yn union fyddai taliadau'n arwain at wella trefn lywodraethu neu berfformiad y bwrdd. Bydd angen iddi fod yn hyderus ei bod wedi nodi meysydd y gellir eu gwella a'u cynnal ac mai taliadau fyddai'r ffordd orau ymlaen. Dylai fod yn gallu rhoi atebion argyhoeddiadol i'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r bwrdd yn effeithiol? A yw'n cyflawni ei swyddogaethau a'i rolau allweddol yn dda? Pa wahaniaeth fyddai taliadau'n ei wneud?
- Sut fyddai taliadau'n cynorthwyo gyda chyflwyno cymhorthion i gael gwell trefn lywodraethu, megis contractau perfformiad, penodiadau cyfnod penodol a gwerthusiadau gorfodol?
- A yw'r bwrdd presennol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cadw aelodau sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr? Os oes problemau neu le i wella, dyweder gyda chadw aelodau, sut fyddai taliadau'n helpu gyda hyn?

- A yw'r bwrdd yn cynnwys ystod eang o bobl gyda sgiliau priodol, profiad a gwybodaeth ddiweddar? A yw'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu?
- Os cafwyd anawsterau'n recriwtio, sut allai taliadau wella pethau, gan arwain at fwrdd mwy amrywiol, er enghraifft, gyda mwy o fenywod, cymysgedd ethnig mwy cynrychioliadol a phobl o amrediad eang o gefndiroedd, neu at fwrdd gydag amrediad mwy priodol o arbenigedd i fodloni anghenion y gymdeithas?

Mae'n bosibl bod rhai cymdeithasau'n teimlo bod eu bwrdd eisoes yn perfformio'n dda, ond eu bod er hynny eisiau cyflwyno taliadau. Efallai y ceir pryderon ynglŷn â'r gallu i gadw'r bobl iawn ar y bwrdd, neu ag ansawdd recriwtiaid i'r dyfodol. Mae'n bosibl y bydd rhai'n teimlo ei bod yn briodol gwobrwyo eu haelodau bwrdd presennol am eu hymrwymiad a'u gwaith caled, a gallai hynny fod yn dderbyniol yng nghyd-destun symbylu gwelliant parhaus yng ngwasanaethau'r gymdeithas a gwell llywodraethu.

Mae gwneud taliadau i'r bwrdd yn codi llawer o ystyriaethau ymarferol. Rhaid ystyried cyfraith cyflogaeth yn ofalus, felly hefyd y sefyllfa o ran treth. I rai aelodau, gallai derbyn budd-daliadau'r Wladwriaeth fod yn ystyriaeth ac mae gofyn rhoi sylw arbennig i'r achosion hyn i sicrhau nad yw'r unigolion dan sylw yn gorfod wynebu canlyniadau anfwriadol. Bydd yn rhaid ystyried hefyd a ddylai unrhyw gynghorwyr awdurdodau lleol sydd hefyd ar fyrddau cymdeithasau tai gael cydnabyddiaeth ariannol ai peidio. Fel y nodir uchod, bydd angen i gymdeithasau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ddarllen y canllawiau y mae wedi'i ryddhau.

Bydd angen i unrhyw gymdeithas sy'n ystyried rhoi taliadau ddangos ei bod wedi mabwysiadu a gweithredu Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru, ei bod wedi rhoi ystyriaeth i'r canllawiau isod a'i bod wedi rhoi'r ystyriaeth ddyledus i'r holl faterion a godwyd.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gymdeithas gyflwyno ei hachos busnes i'r broses graffu cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ac i daliadau ddechrau. Er hynny, rhaid i gymdeithas hysbysu Llywodraeth Cymru o unrhyw gynlluniau i dalu a bod y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud ar sail achos busnes sy'n bodloni'r canllawiau hyn yn llwyr.

Disgwylir y bydd cymdeithas hefyd wedi cyhoeddi ei bwriad i dalu a dylai fod wedi mynd ati i geisio barn tenantiaid, preswylwyr a barn rhanddeiliaid eraill.

Caiff rôl y Corff Rheoleiddio yn y mater hwn ei ddisgrifio yn adran olaf y canllawiau hyn.

TREFNIADAU RECRIWTIO A GWERTHUSO

Rhaid i gymdeithas sy'n dymuno talu i'w haelodau bwrdd sicrhau bod ganddi system gadarn, dryloyw ac annibynnol ar gyfer recriwtio a gwerthuso. Byddai cyflwyno'r taliadau hyn heb y mesurau diogelu hyn yn gwneud y gymdeithas yn agored i feirniadaeth, a gallai hynny effeithio ar ei henw da ac enw da'r sector drwyddo draw.

RECRIWTIO

Wrth recriwtio aelodau newydd, dylai cymdeithasau sy'n ystyried cyflwyno taliadau ddangos bod eu proses recriwtio'n agored a thryloyw. Mae cyngor y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn feincnod defnyddiol.

I gymdeithasau sy'n ystyried gwella amrywiaeth eu byrddau e.e. cydbwysedd rhwng y rhywiau a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gallai'r deunyddiau arferion da a'r astudiaethau achos isod fod o gymorth:

- Arfer da: penodi mwy o fenywod a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Swyddi Cyhoeddus.
<http://wales.gov.uk/docs/dsllg/publications/equality/131118-good-practice-cy.pdf>
- Canfyddiadau allweddol o gyfarfod gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
<http://wales.gov.uk/docs/dsllg/publications/equality/131118-summary-key-findings-cy.pdf>
- Astudiaeth Achos o Benodiadau Cyhoeddus Chwaraeon Cymru – adroddiad llawn.
<http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/121219sportwalespublicappointmentscases>
- Cyhoeddiad gan Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU, *Equalities Act 2010: What do I need to know? A quick start guide to using positive action in recruitment and promotion*.
<https://www.gov.uk/government/publications/employers-quick-start-guide-to-positive-action-in-recruitment-and-promotion>

I fod yn hyderus bod y broses yn agored a thryloyw, bydd angen i'r gymdeithas ystyried y cwestiynau canlynol:

- A yw'r gymdeithas yn gwybod, er enghraifft, pa sgiliau, profiad a chymwyseddau sy'n ofynnol ac a yw'r aelodau bwrdd presennol yn meddu ar y rhain?
- A yw'r hysbysebion am aelodau bwrdd yn rhoi ystyriaeth i'r dimensiwn amrywiaeth a chyfle cyfartal, gan ddenu amrediad eang o ymgeiswyr drwy sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd y gynulleidfa darged gyflawn?
- A luniwyd manyleb person sy'n datgan y sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol? A gafodd cyfrifoldebau a thasgau allweddol, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r aelodau bwrdd eu datgan yn glir?
- A yw'r broses gyfnewid yn wrthrychol, ac yn cynnwys asesydd annibynnol? A yw wedi'i chysylltu â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd sy'n ofynnol?
- A yw'n anodd recriwtio'r amrediad sgiliau llawn ac adlewyrchu amrywiaeth y gymdogaeth? A roddwyd ystyriaeth i benodi rhywun a fydd o bosibl yn barod i ddilyn hyfforddiant er mwyn llenwi bwlch sgiliau?
- A oes peirianweithiau wedi'u sefydlu i sicrhau bod tenantiaid a phreswylwyr yn cael cyfle i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad naill ai drwy aelodaeth o'r bwrdd neu drwy ffyrdd eraill?
- A yw rhanddeiliaid eraill yn cael cyfle i chwarae rhan fel sy'n briodol?

PENODI CADEIRYDD

Mae Cadeirydd y bwrdd yn chwarae rôl allweddol.

Mae'n well gan rai byrddau ethol y Cadeirydd o blith ei gilydd, i sicrhau ei fod ef neu hi'n rhywun sy'n adnabod y sefydliad yn dda ac y mae gan ei gyd-aelodau ffydd ynddo. Os wnânt hynny, rhaid iddynt sicrhau y gallant fodloni eu hunain fod gan eu hymgeisydd yr arbenigedd gofynnol, y sgiliau a'r annibyniaeth i arwain y bwrdd a gweithio gyda'r Prif Weithredwr.

Efallai mai ystyried cystadleuaeth agored am y rôl fyddai orau. Bydd angen i gymdeithasau ddangos bod y drefn benodi'n agored ac yn dryloyw er mwyn sicrhau y penodir rhywun digon cadarn ac annibynnol i ysgwyddo'r rôl. Dylai'r gymdeithas ystyried y cwestiynau hyn:

- A yw wedi hysbysebu'n ddigon eang i sicrhau amrediad eang o ymgeiswyr addas?
- A yw wedi ystyried defnyddio asiantaethau recriwtio i helpu i ddod o hyd i bobl gyda'r arbenigedd a'r amrediad iawn o sgiliau?
- A yw wedi datgan yn glir y priodweddau a'r arbenigedd sydd eu hangen?
- A oes ganddi ddiffiniad clir o'r rôl sy'n datgan y dyletswyddau, y cyfrifoldebau a'r ymrwymiad gofynnol?
- A yw'r broses gyfnewid yn gadarn, yn broffesiynol ac yn wrthrychol, ac a oes aseswyr annibynnol yn rhan o'r broses?

PERFFORMIAD

Y prif gyfiawnhad dros dalu i aelodau bwrdd fydd er mwyn gwella ansawdd y drefn lywodraethu. Rhaid i gymdeithasau sy'n bwriadu talu fod wedi sefydlu trefniadau i asesu sut maent yn perfformio fel unigolion, ac fel corff. Dyma rai cwestiynau y dylid eu hateb:

- A oes systemau gwerthuso cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer y bwrdd fel cyfangorff?
- A yw'r systemau gwerthuso hynny'n galluogi'r bwrdd i wneud asesiad trylwyr o'r gwerth y mae'n ei ychwanegu at berfformiad a threfn lywodraethu'r gymdeithas?
- Sut fydd y system werthuso'n helpu'r bwrdd i fonitro'r gwelliannau a fwriedir?
- Sut gaiff cyfraniad aelodau unigol ei asesu?
- Sut gaiff rôl y Cadeirydd ei hasesu?
- A osodwyd amcanion clir i'r Cadeirydd a'r aelodau bwrdd ac a ellir mesur eu perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn?
- A yw'r gwerthusiadau'n cael eu cynnal gan y bobl iawn?
- A yw'r gwerthusiadau'n gadarn ac annibynnol?
- A ydynt yn cael eu cynnal yn rheolaidd?
- A oes meini prawf clir i'w cael i asesu'r aelodau bwrdd yn eu herbyn?
- A oes polisi clir ar gael ar gyfer delio ag aelodau sy'n syrthio'n brin o'r safonau gofynnol?

RHEOLI TROSIANT AR Y BWRDD AC ADNEWYDDU

Bydd angen i fwrdd effeithiol, dros amser, gydbwyso'r angen am barhad yr aelodaeth yn erbyn yr angen am drosgiant rheoledig er mwyn cael aelodau newydd i ddod â safbwyntiau newydd. Rhaid i Fyrdau sy'n bwriadu talu fod â threfniadau wedi'u sefydlu i sicrhau eu bod yn cael cydbwysedd priodol.

Dylai cymdeithasau ystyried:

- Am ba gyfnod y dylid penodi aelodau?
- Pa mor aml y dylent allu sefyll i gael eu hailbenodi, gan gadw mewn cof y cyfnod sy'n cael ei ddatgan yn Rheolau Enghreifftiol Cartrefi Cymunedol Cymru i Gymdeithasau Tai yng Nghymru (2013), y Cod Llywodraethu ac argymhelliad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus?
- Pa amodau, os o gwbl, y dylid eu rhoi ynghlwm wrth ailbenodiad?

GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Wrth ystyried penderfyniad ar wneud taliadau i aelodau bwrdd, bydd angen i'r bwrdd ystyried:

- Pa ran fydd y bwrdd a'r bwrdd gweithredol yn chwarae i wneud y penderfyniad terfynol?
- A oes pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol annibynnol a all ystyried y cwestiwn?
- A ddylai aelodau fod â rhan yn y penderfyniad? Sut gaiff hyn ei reoli?
- Sut fydd barn tenantiaid a phreswylwyr yn cael ei cheisio?

Bydd angen i gymdeithasau sy'n penderfynu rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'w haelodau bwrdd ystyried sut maent yn mynd i gyflwyno'r system newydd a pha drefniadau pontio fydd eu hangen. Bydd angen iddynt ystyried sut i ddelio â'r aelodau presennol a bydd angen iddynt hefyd ystyried y canlynol:

- Cyflwyno contractau perfformiad a phenodiadau cyfnod penodol;
- Cyflwyno rhaglen dreigl ar gyfer penodi aelodau newydd neu ailbenodi'r rhai presennol;
- Asesiadau blynyddol
- Polisiâu a strategaethau ar gyfer delio â phobl nad ydynt yn bodloni'r safonau angenrheidiol;
- Gostyngiad ym maint y bwrdd os, fel rhan o adolygiad eu bwrdd, eu bod wedi penderfynu y gellir cyfiawnhau hynny;
- Aelodau bwrdd sy'n penderfynu ildio'u hawl i daliad, ac sy'n dymuno parhau i weithredu mewn rôl wirfoddol.

MAINT A CHYFANSODDIAD BWRDD

Mae'n anochel y bydd unrhyw benderfyniad gan gymdeithas i dalu i'w haelodau bwrdd yn golygu costau ychwanegol. Bydd y rhain yn amrywio yn ddibynnol ar lefel y taliadau a maint ei bwrdd. Mae'n bosibl y bydd angen i'r gymdeithas adolygu ei haelodaeth ac ystyried y cwestiynau canlynol:

- A yw maint y bwrdd yn galluogi pobl i weithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau mewn ffordd adeiladol?
- A yw pob aelod unigol yn gwneud cyfraniad unigryw a phwysig?
- A all y gymdeithas ddod o hyd i bobl fydd yn cynnig mwy nag un sgil neu faes arbenigedd?
- Wrth geisio cael amrywiaeth, a all ddod o hyd i bobl sy'n adlewyrchu'r gymuned a hefyd yn cynnig rhai o'r sgiliau sy'n brin ganddi?

- A all hyfforddiant helpu i lenwi rhai o'r bylchau sgiliau?
- A yw'n bosibl sefydlu bwrdd llai, sy'n cael ei dalu, wedi'i gefnogi gan bwyllgor gwirfoddol?

YSTYRIAETHAU YNGLŶN Â THALIADAU

Ar ôl i fwrdd y gymdeithas wneud penderfyniad mewn egwyddor i dalu, bydd angen iddi ystyried amledd y taliad e.e. misol ynteu chwarterol, a pha daliad fydd fwyaf priodol, gallai'r rhain gynnwys:

- Lwfans colli enillion;
- Honorariwm neu swm blynyddol penodol;
- Cyfradd yr awr;
- Lwfans mynychu.

Nid oes disgwyl i gymdeithasau dalu cyflog pensiynadwy i aelodau byrddau.

Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â thalu i aelodau bwrdd ai peidio, bydd angen rhoi ystyriaeth i:

- **Degwch:** a fydd yn gwahaniaethu yn erbyn rhai sy'n ddi-waith neu ar gyflog isel, y gallai'r taliad effeithio ar eu budd-daliadau;
- **Cost i'r gymdeithas:** dylai unrhyw system y cytunir arni arwain at lefelau taliad cymesur a rhagfynegadwy;
- **Cymharu:** gyda chymdeithasau tebyg sy'n talu ynghyd â'u profiad o wahanol ddulliau.
- **Effeithiolrwydd gweinyddol:** symrlrwydd
- **Tryloywder:** wrth wneud y penderfyniad, y polisi taliadau a'r trefniadau.
- **Budd i'r gymdeithas:** atebolrwydd a pherfformiad

PWY I'W DALU

Wrth ystyried pwy i'w dalu, dylai'r bwrdd ystyried a ddylai holl aelodau'r bwrdd gael eu talu ynteu ond Aelodau sy'n cyflawni rolau penodol ar y bwrdd. Er enghraifft:

- Y Cadeirydd
- Y Cadeirydd a Chadeiryddion is-bwyllgorau
- Aelodau is-bwyllgorau nad ydynt yn aelodau o'r prif fwrdd
- Holl aelodau'r is-fyrddau a'r pwyllgorau ar draws y strwythurau grŵp
- Unigolion sydd wedi'u cyfethol i'r bwrdd
- Aelodau'r bwrdd sydd efallai'n cael cydnabyddiaeth ariannol am eu rôl ar fwrdd e.e. Cynghorwyr a enwebir i fwrdd gan awdurdod lleol.

Mae'n bosibl y bydd rhai cymdeithasau'n penderfynu na allant fforddio talu i'r bwrdd cyfan, ond gallent, er enghraifft, ystyried cael Cadeirydd cyflogedig. Dylid dilyn y canllawiau hyn ni waeth sut caiff aelodau eu talu na faint o aelodau a gaiff eu talu.

LEFELAU TALIADAU

Wrth osod lefelau taliadau o fewn cyfyngiadau statudol (i'w datgan yng Nghylchlythyr RSL 005/10 ar daliadau a buddion a ganiateir), dylai'r gymdeithas ystyried dau brawf cymesured:

- a. Y gost gyffredinol i'r gymdeithas yn gymesur â'i throsiant;
- b. Y symiau a delir i aelodau bwrdd unigol.

Wrth ystyried y gost gyffredinol, bydd angen i gymdeithasau ystyried:

- Pa gyfran o'r trosiant sy'n rhesymol ei gwario ar daliadau i aelodau'r bwrdd?
- A yw'n bosib amddiffyn y cyfanswm a gaiff ei wario fel cost y tenant neu gost yr uned?
- A fydd y swm i'w wario'n effeithio ar y gallu i gyflenwi gwasanaethau i'r tenantiaid?
- Pa effaith gaiff cost y taliad ar ddefnyddio adnoddau'n gyffredinol ac ar y gallu i fodloni'r rhwymedigaethau dan y Cod Llywodraethu?
- Drwyddo draw, a ddisgwylir i'r gwelliant yn y drefn lywodraethu fod yn ddigonol i gyfiawnhau'r gwariant?

Wrth edrych ar symiau i'w talu i aelodau unigol, bydd angen i gymdeithasau ystyried:

- Yr amser y disgwylir i'r aelod ei dreulio ar ddyletswyddau'r gymdeithas;
- Lefel y cyfrifoldeb y mae'n ei hysgwyddo;
- Maint a chymhlethdod y gymdeithas a pha mor anodd yw'r swydd;
- Symiau (os o gwbl) a delir gan gymdeithasau eraill yn yr ardal am rôl debyg;
- Y symiau a delir i aelodau bwrdd mudiadau gwirfoddol neu sefydliadau sector cyhoeddus tebyg.

Wrth ystyried a ddylid talu mwy i'r Cadeirydd a neu'r dirprwy nac i aelodau bwrdd eraill, bydd angen i'r gymdeithas ystyried:

- Faint o amser ychwanegol y mae'r swyddogion hyn yn ei dreulio ar ddyletswyddau'r gymdeithas o'u cymharu ag aelodau eraill;
- Faint o gyfrifoldeb ychwanegol y maent yn ei ysgwyddo;
- Faint mae Cadeiryddion a dirprwyon mudiadau gwirfoddol neu sefydliadau sector cyhoeddus tebyg yn cael eu talu.

RHEOLEIDDIO TALIADAU

Er nad oes gofyn i gymdeithas gyflwyno achos busnes o safbwynt cydnabyddiaeth ariannol aelodau bwrdd, mae disgwyl i gymdeithas hysbysu ei Rheolwr Rheoleiddio mewn da bryd os yw'n ystyried cyflwyno taliadau.

Disgwylir y bydd cymdeithas hefyd wedi hysbysu Llywodraeth Cymru os yw wedi penderfynu cyflwyno taliad a chyn gwneud taliad, fel y gellir rhoi sicrwydd ei bod wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn.

Mae'n bwysig iawn rhoi sicrwydd o'r canlynol:

- Mae'r gymdeithas wedi nodi'r meysydd hynny lle mae'n disgwyl gweld gwelliannau mesuradwy;
- Mae ganddi ddull bwriadol o wneud penderfyniad sy'n adlewyrchu'r canllawiau hyn.
- Rhoddwyd ystyriaeth lawn i gymesuredd y symiau sydd i'w talu;
- Ceir cynlluniau cadarn ar gyfer ymgynghori â thenantiaid/preswylwyr ac ar gyfer ystyried barn rhanddeiliaid eraill;
- Mae systemau wedi'u sefydlu i fonitro a gwerthuso effeithiau taliadau.

Os methwch â rhoi sylw i'r materion hyn cyn cyflwyno taliad, fe ystyrir eich bod hefyd wedi methu â chyflawni'r rhwymedigaethau llywodraethu da sylfaenol yn y Cod Llywodraethu sy'n ymwneud â chynnal safonau uchel o uniondeb a chynnal enw da'r sector.

Os, ar ôl gwneud penderfyniad i wneud taliadau, fod pryderon yn codi am y broses o wneud y penderfyniad hwnnw, am y trefniadau a weithredwyd, neu am y gwelliannau yn y drefn lywodraethu o ganlyniad, gallai ymchwiliad pellach gael ei gynnal ac, os oes angen, caiff camau rheoleiddio priodol eu cymryd.

Os bydd cymdeithas sy'n gymdeithas gofrestredig neu'n gwmni yn talu swm neu'n rhoddi buddion yn groes i baragraff 2 o Atodlen 1, gall Gweinidog Cymru gyfarwyddo'r gymdeithas i gymryd camau i adennill y symiau a dalwyd neu'r buddion a roddwyd. Sylwer bod elusennau cofrestredig hefyd yn rhwym wrth y gyfraith elusennol berthnasol. Dylai cymdeithasau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau hefyd ddarllen cyhoeddiad y Comisiwn, Treuliau a Thaliadau Ymddiriedolwyr (CC11).

Uchafswm taliadau

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer ym mharagraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 i ddynodi, o bryd i'w gilydd, yr uchafsymiau y caniateir i landlord cymdeithasol cofrestredig eu talu fel cydnabyddiaeth ariannol neu dreuliau i swyddog i'r gymdeithas neu'r cwmni nad oes ganddo gontract cyflogaeth gyda'r gymdeithas neu'r cwmni.